**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1334
Ein cyf/Our ref FM -/00219/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
deisebau@senedd.cymru

Mehefin 20 2023

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Mai ynglŷn â Deiseb P-06-133: "Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychioliadol o Boblogaeth Cymru".

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae sawl pwyllgor a phanel wedi dod i'r casgliad pe bai cwotâu rhywedd yn dod yn rhan integredig o'r system etholiadol y gallai hynny wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran cynrychiolaeth menywod yn y Senedd. Mae Cytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru yn cynnwys cwotâu rhywedd mewn perthynas â diwygio'r Senedd.

Daeth y Panel Arbenigol a adroddodd yn 2017 i'r casgliad y byddai gwella'r gynrychiolaeth yn y Senedd ar draws amrediad llawer ehangach o nodweddion gwarchodedig yn gwella'r ffordd yr oedd y Cynulliad, fel yr oedd ar y pryd, yn gweithredu, yn ogystal â'r ffordd yr oedd yn cynrychioli ac yn gwasanaethu pobl Cymru. Casgliadau tebyg oedd gan Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2020, a amlinellodd fanteision Senedd amrywiol sy'n rhoi darlun cywir o boblogaeth Cymru.

Yn adroddiad Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, gwnaed nifer o argymhellion ynghylch cynyddu amrywiaeth yn y Senedd, a hynny drwy gwotâu rhywedd deddfwriaethol a mesurau eraill yn ymwneud â chyhoeddi data ar amrywiaeth ymgeiswyr i'r Senedd a strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant. Cafodd yr argymhellion hyn eu cymeradwyo gan y Senedd ar 8 Mehefin 2022. Ni wnaeth y pwyllgor argymell cwotâu amrywiaeth, gan ddweud bod angen rhagor o waith " "i lywio penderfyniadau ynghylch a fyddai cwotâu o'r fath yn ddulliau priodol o annog ethol Senedd fwy amrywiol".

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd da o ran trosi argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig yn ddeddfwriaeth. Rwyf wedi gwneud dau Ddatganiad Ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt gwaith diwygio'r Senedd: ym mis Rhagfyr 2022 a mis Ebrill 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn trafod â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflenwi i ddeall goblygiadau ymarferol gweithredu cwotâu rhywedd integredig yn ein system etholiadol. Wrth ddatblygu cynigion deddfwriaethol, rydym hefyd yn ystyried yn ofalus unrhyw ddyletswyddau newydd y gallai fod angen eu cyflwyno, ym mha amgylchiadau y byddai orau i’w cyflwyno a pha effaith y gallent ei chael.

Mae nifer cynyddol o wledydd ledled y byd yn cyflwyno gwahanol fathau o gwotâu rhywedd ar gyfer yr etholiadau i’w senedd. Gall sicrhau amrywiaeth arwain at benderfyniadau gwell o ganlyniad i’r amrediad ehangach o safbwyntiau a phrofiadau, a gall hefyd arwain at ganlyniadau gwell o ganlyniad i graffu gwell ar bolisïau, gwariant a deddfwriaeth.

Senedd a fydd yn cynrychioli bywyd modern Cymru yn llawn fydd Senedd sy'n gallu gweld y wlad drwy lygaid ei holl bobl, gan wneud penderfyniadau er budd pawb. Po fwyaf amrywiol yw’r aelodau etholedig, y mwyaf o hyder ac ymddiriedaeth fydd gan bobl yn y Senedd fel deddfwrfa sydd wir yn cynrychioli'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac sy’n gwneud hynny yn deg.

Er bod pleidiau gwleidyddol mewn sefyllfa gadarn i ddylanwadu'n gadarnhaol ar amrywiaeth yr ymgeiswyr i’r Senedd, rhaid inni gydnabod bod gan Gomisiwn y Senedd a’r llywodraeth hefyd gyfraniad pwysig i’w wneud i sicrhau ei bod yn ymarferol i unigolion sy'n wynebu rhwystrau penodol i barhau mewn swyddi etholedig. Mae camau pwysig wedi'u cymryd yn barod, er enghraifft ar gyfer Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill a'r rheini sydd ar absenoldeb rhiant. Yn ogystal â hynny, mae symud tuag at drefniadau gweithio hybrid hefyd wedi bod yn fanteisiol.

Cafodd cynllun peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru ei sefydlu hefyd, i gynorthwyo pobl anabl i sefyll am swyddi etholedig drwy gynnig cymorth ar gyfer y costau ychwanegol y maent yn eu hysgwyddo mewn perthynas â nam, sef costau a arferai eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Anabledd Cymru oedd yn rheoli’r cynllun peilot, a chafodd ei sefydlu i gefnogi ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Mae trefniadau yn cael eu hystyried ar gyfer cronfa yn y dyfodol a fydd yn berthnasol i'r ddau fath o etholiadau.

Cafodd nifer o gynigion polisi gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y papur gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol, a gaeodd ym mis Ionawr  2023.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wedi cael £82,000 dros ddwy flynedd tuag at ei brosiect Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, a fydd yn darparu rhaglen fentora ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig ledled Cymru. Bydd yn recriwtio ac yn mentora menywod amrywiol, pobl sy’n dod o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a phobl LHDTC+ i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, boed hynny drwy sefyll am swydd wleidyddol, drwy wasanaethu ar fyrddau cyhoeddus neu ar fyrddau elusennol, neu drwy fod yn llywodraethwyr ysgol. Mae’n gydweithrediad rhwng Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, Stonewall Cymru ac Anabledd Cymru.

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y ddeiseb.

**MARK DRAKEFORD**